

**Dull integredig o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng
Nghymru**

Syr Alasdair Macdonald

Dull integredig o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

Cefndir a Chyd-destun

Ym mis Rhagfyr 2019 gofynnwyd i mi gan Lywodraeth Cymru gynnal ymarfer cwrmpasu a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu dull integredig o wella deilliannau addysgol Plant sy'n Derbyng Gofal (LAC). Yn benodol, gofynnwyd i mi edrych ar ymagweddau awdurdodau lleol integredig yng Nghymru a Phenaeithaid Ysgolion Rhithwir (VSH), sy'n statudol yn Lloegr ac sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd mewn rhai rhannau o'r Alban. Cyd-destun yr adolygiad hwn yw fel rhan o ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r weledigaeth bod gan bob plentyn yng Nghymru – gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal – yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol waeth beth fo'i amgylchiadau. Ar gyfer pob disgybl, ond yn arbennig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae mwy i lwyddiant yn 16 oed na pherfformiad TGAU, ond mae hyn yn dal i fod yn fesur allweddol ac mae bwch o 43% ar lefel 2 rhwng cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal a gweddill eu cohort yn annerbyniol. Yn ddi-os, mae angen gwelliant nid yn unig ar hyn, ond ar bron bob mesur arall fwy neu lai.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, yn ymrwmo i "*archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill, a diwygio'r ffordd y gofelir amdanynt os bo angen*". Atgyfnerthir hyn gan y Strategaeth Genedlaethol *Ffyniant i Bawb*, gyda gofal cymdeithasol fel un o'r pum maes blaenoriaeth, a champau gweithredu i:

- *wella cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant sydd mewn gofal, gan roi lle canolog i'r plentyn, drwy sicrhau bod gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau eraill, yn cydweithio.*
- *cryfhau gwasanaethau ar ffiniau gofal er mwyn rhoi cymorth amserol i deuluoedd a lleihau'r niferoedd y mae angen darparu gofal ar eu cyfer a chynnig cymorth yn y cyfnod allweddol o newid ar ôl i blant sy'n gadael gofal gyrraedd 16 oed, er mwyn iddynt fedru manteisio ar addysg bellach a dod o hyd i swyddi a thai*

Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* yn ymrwmo i ddarparu cwrwclwm newydd, trawsnewidiol wedi'i gefnogi gan ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwmo i ragoriaeth, tegwch a llesiant. Mae'r cynllun hwn yn addo cryfhau gweithio cydweithredol er mwyn sicrhau gwell deilliannau i blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi ei bod yn hanfodol edrych yn gyfannol ar y cymorth a ddarperir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ni ellir ystyried eu hanghenion addysgol ar eu pen eu hunain a rhaid mynd i'r afael â hwy ynghyd â materion ehangach fel eu llesiant, eu hiechyd a sefydlogrwydd eu lleoliad. Mae hon yn thema allweddol i *Codi Uchelgais a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyng Gofal* sy'n cadarnhau'r berthynas gynhenid rhwng cyd-destun cymdeithasol y plentyn a'i gyrhaeddiad addysgol. 'Rhaid i bob rhan o'r system weithredu mewn modd cydgyssylltiedig a chydlynol i sicrhau bod newidiadau sylweddol ym mywyd y plentyn yn cael eu lleihau

a'u rheoli mewn ffordd ystyriol, gyda'r plentyn yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir bob amser'. Ategir hyn ymhellach gan erthygl 39 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n nodi y dylai plant sydd wedi dioddef trawma gael cymorth ychwanegol i hyrwyddo adferiad corfforol a seicolegol ac integreiddiad cymdeithasol.

Dros y 9 mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid sylweddol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal i gefnogi'r amcan hwn. I ddechrau, dosbarthwyd yr arian hwn yn uniongyrchol i ysgolion ond yn fwy diweddar i Gonsortia Addysg Rhanbarthol er mwyn sicrhau defnydd mwy strategol.

Ymarfer Cyfredol yng Nghymru

"Mae pobl yn dweud wrthy ch, os nad ydych yn llwyddo i gael eich canlyniadau TGAU na fydd dyfodol i chi, ond mae hynny'n chwerthinllyd"

"Mae'n aml yn teimlo fel eich bod fel ysbryd yn y cyfarfodydd, eich bod yn cael eich magu gan bwyllgor. Mae'r holl weithwyr proffesiynol yn siarad amdanoch chi fel pe na baech chi yno."

Dyfyniadau gan bobl ifanc sydd wedi cael profiad o Ofal.

Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989 a 2004, roedd yn ofynnol i awdurdodau cyfrifol ddynodi ymarferydd arbenigol, y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, i gydlynu cynllun addysg pob plentyn a mynd i'r afael ag anghenion addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ardal yr awdurdod lleol. Mae'r holl ddyletswyddau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru bellach yn cael eu cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae bwriad i ail-osod dyletswydd cydgysylltydd, er y gallai unrhyw benderfyniadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn ddylanwadu ar hyn. Mae'r canllawiau *Gwneud Gwahaniaeth* yn nodi dyletswyddau ALLau fel rhieni corfforaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae gan y Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gylch gwaith clir i sefydlu a gorfodi gweithdrefnau a phrotocolau ar y cyd, darparu gwybodaeth fel y bo'n briodol i bawb sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol a gweithredu fel eiriolwr ar ran pobl ifanc mewn gofal cyhoeddus. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar ran yr awdurdod cyfrifol wrth sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal ganddynt Gynllun Addysg Personol effeithiol o ansawdd uchel.

Yn y system bresennol, felly, y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r prif berson ym mhob ALL sy'n gyfrifol am ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal ac am eu cynorthwyo i gael gwared ar y rhwystrau sy'n eu hwynebu, yn enwedig y diffyg darlun cyfannol o'u bywydau a'u llesiant.

Ceir llawer o ymarfer rhagorol ledled Cymru ac mae'r Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal wedi sefydlu rhwydwaith, gan gyfarfod yn rheolaidd i rannu'r ymarfer hwn. Isod ceir rhai enghreifftiau, yn amrywio o fentrau bach mewn clystyrau ysgolion i newid strwythurol ar draws Awdurdod Lleol cyfan. Mae llawer mwy y gellid

bod wedi'i gynnwys, ac mae llawer o'r enghreifftiau a restrir yma i'w cael mewn ALLau eraill.

- Mae Cyngor Sir Gâr wedi datblygu gwasanaeth addysg a phlant integredig. Mae hyn yn cael ei arwain gan uwch swyddog ar gyfer rhianta corfforaethol sy'n canolbwyntio ar strategaeth, gan arwain tîm aml-ddisgyblaeth, gan gynnwys: tîm addysg i blant sy'n derbyn gofal (CLA) oedd yn cynnwys cynorthwywyr addysgu a oedd yn hyddysg mewn addysg plant sy'n derbyn gofal a thrawma; seicolegwyr addysg sy'n cysylltu â'r tîm gofal cymdeithasol; ymarferwr therachwarae; cwnselydd; a nyrsys ysgol wedi'u hyfforddi fel nyrsys plant sy'n derbyn gofal. O ganlyniad, maent bellach yn adrodd am welliannau sylweddol yng nghyrrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal tra byddant yn yr ysgol a thu hwnt.
- Yng nghlwtwr Cas-gwent cyflogir Swyddog Teulu Plant sy'n Derbyn Gofal gynorthwyo disgyblion sy'n derbyn gofal ar draws y clwtwr. Mewn holiadur diweddar dywedodd 90% o ddisgyblion sy'n derbyn gofal eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth gan y swyddog cyswllt teulu
- Mae'r Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn ERW, yn ogystal â'r rhwydwaith cenedlaethol, yn cyfarfod yn rheolaidd o fewn eu rhanbarth i drafod meysydd i'w datblygu a meysydd i'w gwella.
- Mae Castell-nedd Port Talbot wedi sicrhau y deallir trawma ac ymlyniad ar draws eu hawdurdod lleol a rhoddwyd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar waith i gwmpasu arweinwyr ysgol, staff addysgu a staff cymorth gyda phwyslais ar ddata tracio cywir.
- Mae'r practis integredig yn Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar ddull o weithio sy'n seiliedig ar drawma i'w holl waith, gan gynnwys ei gymorth i rieni maeth. Mae rhaglen gref ar gyfer datblygu'r Person Dynodedig ac ysgolion sy'n ystyriol o blant sy'n derbyn gofal.
- Yn Sir Ddinbych, caiff addysg a gwasanaethau cymdeithasol plant eu hintegreiddio, gydag un swyddog yn arwain yr adran ar y cyd. Mae ymrwymiad mawr ar draws yr ALI cyfan, yn gynghorwyr ac yn swyddogion, i flaenoriaethu eu rôl rhianta corfforaethol a diddordeb arbennig mewn ehangu'r deilliannau a ddefnyddir i fesur llwyddiant.
- Yn Ynys Môn ceir menter i geisio dod â chymaint o'r plant sy'n derbyn gofal yn ôl i'r gymuned yn hytrach na'u bod yn cael eu lleoli ymhell o 'gartref' yn aml am gost sylweddol.
- Yng ngorllewin Sir Fynwy, mae un clwtwr yn ariannu mentoriaid/arweinwyr LAC ym mhob ysgol (lle mae niferoedd sylweddol o blant sy'n derbyn gofal) ac mewn un ysgol mae cynorthwywyr cymorth dysgu lefel 3 wedi cael eu nodi sy'n gweithio gyda phob disgybl (11) LAC bob wythnos ar ymyriadau fel anogaeth ABC a phe cyn llesiant i blant yn eu harddegau.

Nid yw llawer o'r ymarfer hwn yn annhebyg i'r hyn a geir yn system Ysgolion Rhithwir Lloegr. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth o ran ymarfer o'r naill awdurdod lleol i'r llall, ac mae cryn dipyn o'r amrywiad hwn yn deillio o'r gwahanol strwythurau y mae'r Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn gweithredu ynddynt.

Mewn rhai awdurdodau lleol, mae gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn adrannau ar wahân, ac mewn achosion eraill mae'r ddau wasanaeth wedi'u huno gydag un person yn arwain y ddau fel Sir Ddinbych a Sir Gâr. Mae'r amrywiaeth hwn yn effeithio ar ble mae'r Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'u 'lleoli' gyda 18% ohonynt yn Adrannau Gwasanaethau Plant, 68% mewn Adrannau Addysg, a'r 14% sy'n weddill wedi eu lleoli ar y cyd ar draws y ddwy adran. Adlewyrchir hyn hefyd yng nghefnidir y Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal y mae gan rai ohonynt gefndir addysgol (mae gan 68% statws Athro Cymwysedig) tra bod eraill yn dod o wasanaethau cymdeithasol neu gefndir cwbl wahanol. Nid oes disgrifiad swydd cenedlaethol ac er bod pob Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn gweithio i'r un canllawiau, sy'n amlinellu set o dasgau sy'n isafswm disgwyliadau (gweler Atodiad A), mae arferion gwahanol wedi esblygu ledled Cymru gan fod yr union rolau a chyfrifoldebau wedi cael eu dylanwadu'n lleol gan y gwahanol ddulliau gweithredu a strwythurau ym mhob awdurdod.

Mae'r rhestr hon o'r tasgau gofynnol a ddisgwylir yn eang iawn ac mae'r ehangder hwn wedi cyfrannu at yr amrywiadau mewn ymarfer, fel y mae'r gwahanol gyd-destunau, nid yn unig o ran maint, daearyddiaeth a nifer y plant sy'n derbyn gofal (yn amrywio o tua 75 yng Ngheredigion i fwy na 1000 yng Nghaerdydd), ond hefyd yn lefel y cyllid a ddyrennir. Mae plant mewn 3 sefyllfa wahanol ar gyfer pob ALI hefyd; y rhai y mae'r ALI yn rhiant corfforaethol iddynt ac sydd wedi'u lleoli yn yr ALI 'cartref'; y rhai y mae'r ALI yn rhiant corfforaethol iddynt ond sy'n cael eu rhoi mewn ALI gwahanol neu hyd yn oed wlad wahanol; a'r rhai sy'n cael eu rhoi yn eu ALI ond sy'n gyfrifoldeb rhiant corfforaethol i ALI neu wlad wahanol.

Mae'n bosibl nad yw gwahaniaethau sydd wedi ymddangos rhwng ALLau yn broblem wrth reoli ysgolion yn fwy cyffredinol nac yn y gwasanaethau cymdeithasol lle mae'r ALLau yn ymateb i anghenion gwahanol eu cyd-destunau amrywiol, ond o ran LAC, gallant gael effaith andwyol ar eu cyflawniadau addysgol. Mae llawer o blant sy'n derbyn gofal, os nad y rhan fwyaf ohonynt, yn profi lleoliadau lluosog a newidiadau lluosog yn yr ysgol, yn aml ar draws ffiniau ALI neu hyd yn oed ffiniau cenedlaethol. Yn aml, mae hyn yn gofyn am weithredu'n gyflym i sicrhau nad yw person ifanc allan o'r ysgol am gyfnod sylweddol. Mae'r dystiolaeth gan Gydgyssylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac eraill yn dangos nad yw llywio'r gwahanol systemau bob amser wedi gweithio'n dda ar gyfer plant sy'n derbyn gofal - ceir enghreifftiau o ddisgyblion heb fod ysgol wedi'i phennu ar eu cyfer am sawl mis – gan greu rhwystr diangen arall i ddiwallu anghenion y bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed, yn enwedig gan fod symud i leoliad newydd eisoes yn gyfnod o gryn straen.

Gallai eiriol dros integreiddio addysg a gwasanaethau cymdeithasol plant ymddangos yn strategaeth briodol gyda manteision posibl i blant sy'n derbyn gofal, o ran y gallai'r plant fod yn fwy tebygol o dderbyn gofal cyfannol, ac yn sicr mae ymarfer rhagorol, gyda deilliannau gwell, mewn rhai o'n hawdurdodau lleol integredig. Fodd bynnag, nid diben yr adolygiad hwn yw trafod manteision ac anfanteision gwahanol fodolau o strwythur ALLau ond yn hytrach dod o hyd i strategaethau a fydd yn sicrhau beth bynnag fo strwythur awdurdod lleol bod y cymorth a gaiff plant sy'n derbyn gofal wedi'i integreiddio i sicrhau'r deilliannau gorau posibl.

Materion a godwyd gan Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac eraill yn ystod yr adolygiad a allai gyfrannu at wella deilliannau

Waeth ym mha strwythur y mae'r Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn gweithio, mae llawer o elfennau cyffredin yn yr ystyriaethau a ddeilliodd o drafodaethau gyda nhw, ac eraill mewn adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, ac mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn gwella deilliannau addysgol.

Hyfforddi staff

Mae barn gref iawn mai un o'r camau mwyaf arwyddocaol y gellid ei gymryd fyddai sicrhau bod pob aelod o staff mewn ysgolion yn ymgymryd â Hyfforddiant Trawma ac Ymlyniad. Byddai hyn o fudd i bob disgybl ond mae'n arbennig o bwysig o ran deall ymddygiad ac anghenion plant sy'n derbyn gofal. Mae llawer o rannau o'r wlad eisoes yn gweithredu rhaglenni o'r fath yn llwyddiannus gyda llawer ohono wedi'i ariannu gan Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal ac yn aml mae'n gysylltiedig â dynodi ysgolion sy'n gyfeillgar i Blant sy'n derbyn Gofal. Yn ogystal, mae angen lleiafswm cynnig proffesiynol ar gyfer y Person Dynodedig â chyfrifoldeb am LAC ym mhob ysgol a fyddai nid yn unig yn darparu'r cefndir damcaniaethol ond yn eu cynorthwyo'n benodol i gyflawni eu rôl yn well.

Data

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r holl Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ddefnyddio dwy system ar wahân, ac mae barn gref bod cael gafael ar ddata, yn enwedig data 'byw' neu o leiaf ddata diweddar iawn, yn hanfodol. Mae dwy brif agwedd i hyn.

Yn y lle cyntaf, mae'r wybodaeth ddiweddaraf am bob plentyn yn hanfodol er mwyn monitro cynnydd a darparu cymorth yn gyflym i'r manau lle mae ei angen. Yn draddodiadol, mae data wedi canolbwyntio ar bresenoldeb a gwaharddiadau ond mae ansawdd y data ar gynnydd disgyblion wedi bod yn amrywiol iawn. Yn aml, gall materion eraill ym mywyd plentyn ddisodli'r ffocws ar eu cynnydd yn yr ysgol, ond dylai hyn fod dros dro ac mae angen pendant i ganiatáu i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am LAC gael gafael ar ystod eang o wybodaeth am ddeilliannau addysgol a'r hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau bod y data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu.

Yn ail, yn y sefyllfa bresennol pan fydd plant sy'n derbyn gofal yn symud lleoliad yn aml, mae problem o ran trosglwyddo data o un ysgol i'r llall. Gall hyn weithio'n dda ond mae llawer o achosion pan nad yw hynny'n digwydd. Ni ddylai defnyddio gwahanol systemau rheoli TG atal na rhwystro hyn rhag digwydd.

O ran pwynt gweinyddol, mae problemau ychwanegol wedi'u creu drwy gael gwared ar LAC fel marciwr ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Roedd yna resymau yn ymwneud â GDPR dros wneud hyn ond roedd llawer o Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn sôn am y ffaith bod hyn wedi ychwanegu haen arall o anhawster i olrhain cynnydd plant sy'n derbyn gofal.

Derbyniadau

Un o'r materion anoddaf sy'n wynebu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yw mater eu derbyn i ysgolion. Rhaid i ysgolion dderbyn LAC sy'n symud i'w hardal, ac oni bai bod anghenion dysgu ychwanegol sylweddol ni ddylai ysgolion wrthod derbyn ar y sail na allant ddiwallu anghenion plentyn - hyd yn oed os yw hyn yn golygu mynd y hwnt i nifer y disgyblion a dderbynnir. Mae llawer o ysgolion yn wirioneddol gynhwysol ond, yn enwedig yn y sector uwchradd, mae'r cymhellion yn wrthnysig, gan y gallai cymryd disgybl, na fydd o bosibl yn cyflawni'n uchel ac sydd ag anghenion eraill efallai, gael effaith andwyol ar ddata perfformiad yr ysgol. Mae'r bobl ifanc a gyfwelwyd sydd â phrofiad o ofal yn ymwybodol iawn nad ydynt bob amser yn cael eu croesawu i ysgolion am y rheswm hwn.

Mesur Llwyddiant

Fel y pwysleisiwyd yn y dyfyniad gan berson ifanc â phrofiad o ofal, nid yw canolbwyntio ar gymwysterau TGAU yn ddefnyddiol nac yn gadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal. Nid yw hynny'n golygu mewn unrhyw ffordd y dylid gostwng dyheadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. I'r gwrthwyneb yn llwyr. Fodd bynnag, bydd mesur llwyddiant dim ond gan ba beth bynnag yw'r meincnod presennol ar gyfer TGAU yn arwain bron yn anochel at ymdeimlad o fethiant yn achos llawer o blant sy'n derbyn gofal, eu rhieni maeth, eu hysgol a phawb sy'n gweithio gyda nhw. Mae angen dod o hyd i ystod ehangach o fesurau sy'n edrych yn benodol ar yr hyn sy'n digwydd i blant sy'n derbyn gofal ar ôl 16 oed.

Mynediad at wasanaethau iechyd a CAMHS

Mae hon yn broblem benodol, ond mewn gwirionedd yn ddarlun o un gyffredinol - lefel y cyllid y mae'r wladwriaeth yn barod i'w ymrwymo i'r rôl Rhianta Corfforaethol. Ar hyn o bryd mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws y wlad ac yn cael ei adlewyrchu yn arbennig yng ngallu'r Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal i gael mynediad at wasanaethau megis seicoleg addysg a CAMHS. Mewn rhai ALLau, gellir gwneud hyn yn gyflym ond, ar y gorau, ceir oedi o ran amser ac, ar y gwaethaf, anhawster eithriadol o ran cael mynediad at y gwasanaethau hyn. Canfu data iechyd meddwl diweddar yn Lloegr fod gan 45% o blant sy'n derbyn gofal ddiagnosis o salwch meddwl sy'n golygu bod cymorth ymyrraeth gynnar yn hanfodol os yw plant sy'n derbyn gofal i gyflawni yn yr ysgol.

Osgoi Gwaharddiadau

Mae yna ddealltwriaeth bod ysgolion yn wynebu ymddygiad heriol iawn ar brydiau a'u bod yn dymuno cael eu gweld yn trin pob disgybl yn yr un ffordd. Fodd bynnag, mae *Canllawiau ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol* yn nodi y dylai ysgolion fod yn arbennig o sensitif i faterion gwahardd lle mae plant sy'n derbyn gofal yn y cwestiwn. Dylai ysgolion geisio cynnal pob ffordd ymarferol o gadw'r dysgwr yn yr ysgol a dylent ofyn am gyngor yr ALI a chyngor proffesiynol arall fel y bo'n briodol. Ar hyn o bryd, ymddengys nad yw'r canllawiau hyn yn cael eu dilyn bob amser ac mae gormod o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu gwahardd o'r ysgol.

Ymarfer presennol yn Lloegr

Yng Nghymru, y person allweddol yw'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr benodi Pennaeth Ysgol Rithwir (VSH), at y diben o gyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol y plant sy'n derbyn gofal o fewn yr awdurdod. Rhaid i'r person hwnnw fod yn swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu, pan fo awdurdodau lleol yn cytuno i gydweithredu neu rannu'r rôl, awdurdod lleol arall yn Lloegr.

Gall defnyddio'r gair 'rith' fod yn ddryslud gan ei fod yn rhoi'r syniad y bydd y disgyblion yn gweithio o bell ar eu cyfrifiaduron. Nid ysgol felly mohoni. Mae'r ysgol yn rhithiol gan nad yw'n bodoli fel sefydliad ffisegol. Nid yw plant yn ei mynychu - maent yn mynychu ysgolion prif ffrwd ac mae'r ysgol lle maent wedi'u cofrestru yn parhau'n gyfrifol amdanynt ond mae pob agwedd ar eu llesiant a'u cynnydd yn cael eu monitro a'u cefnogi gan Bennaeth yr Ysgol Rithwir (VSH).

Felly, mae Ysgol Rithwir (VS) yn offeryn trefniadol a grëwyd ar gyfer cydgysylltu cymorth yn effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rheini a leolir y tu allan i ffiniau'r awdurdod gofalu, ar lefel strategol a gweithredol. Y VSH yw'r swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau yn eu lle i alluogi hyn, drwy ganolbwyntio'n ddi-baid, fel y byddai unrhyw bennaeth, ar wella presenoldeb a chodi deilliannau addysgol ar gyfer 'eu disgyblion' ond yn ychwanegol at hynny ac yn bwysig, eu cefnogi a'u paratoi ar gyfer pontio i fywyd fel oedolyn. Mae gweithwyr proffesiynol eraill yn y gweithlu plant, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a swyddogion adolygu annibynnol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, yn rhwym wrth fframweithiau statudol ychwanegol.

Datblygwyd llawlyfr cynhwysfawr yn Lloegr gan y Rhwydwaith Ysgolion Rhithwir Cenedlaethol (NAVSH). Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar y rôl o'r fframwaith statudol i fesur effaith, i gyngor ar leoliadau brys i atebolrwydd. Yr elfennau allweddol yn rôl VSH yw;

- dylanwadu ar bolisi a datblygu a gwella gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- hybu cyflawniad, iechyd a lles unigolion.
- rhoi cyngor, cymorth a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, ysgolion a gofalwyr
- gwella mynediad at wasanaethau arbenigol, gan gynnwys asesiadau iechyd, asesiadau iechyd meddwl a thriniaethau.
- darparu mynediad at gyngor a chanllawiau proffesiynol ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- hyrwyddo cyfleoedd ychwanegol ar gyfer dysgu a hamdden y tu allan i'r ysgol

Mae'r nodau trosfwaol hyn yn cael eu mynegi mewn termau mwy gweithredol yn y llawlyfr fel chwe sffêr a ddylai lywio gweithgaredd VSH. Rhaid i'r VSH:

- wybod pwy sydd ar gofrestr eu Hysgol Rithwir;
- gwybod ble maen nhw'n byw a ble maen nhw'n mynd i'r ysgol;
- gwybod, ar unrhyw adeg, sut maen nhw'n dod yn eu blaenau;
- penderfynu pa gamau i'w cymryd os nad ydynt yn gwneud yn ddigon da;
- gwerthuso effaith y camau a gymerwyd i wella cyrhaeddiad a chynnydd;
- deall eu hatebolrwydd a sut bydd eu hYsgol Rithwir yn cael ei harolygu.

Mae'n amlwg bod tebygrwydd mawr rhwng rolau a chyfrifoldebau'r Pennaeth Rhithwir yn Lloegr a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyngofal yng Nghymru ond mae gwahaniaethau mewn arferion, ac mae llawer ohonynt yn deillio o'r penderfyniad i wneud y swydd allweddol hon yn 'Bennaeth' ac i'w gosod mewn Adrannau Addysg. Mae gan fwyafrif llethol y VSHs yn Lloegr gefndir ym maes addysg ond nid yw SAC yn ofyniad.

Mae addysg plant sy'n derbyn gofal yn amlygu'r cyfyng gyngor o weithio rhyngbroffesiynol nad yw bob amser wedi hwyluso'r broses o gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal - y broblem o gydnabod materion addysgol mewn amgylchedd gwaith cymdeithasol ac i'r gwrthwyneb, y diffyg dealltwriaeth o anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion. Hyd yn oed ar y lefel ymddangosiadol gyffredin, roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd yn ddig bod cyfarfodydd yn aml yn digwydd ar adegau a oedd yn gweddu i'r gweithwyr proffesiynol ond a allai fod ar adeg gwrs bwysig neu hoff wers.

Mae creu Ysgolion Rhithwir yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddeilliannau dysgu plant sy'n derbyn gofal yn glir yn y sector addysg. Mae profiad yn Lloegr wedi cefnogi'r penderfyniad hwn ond mae hefyd wedi dangos bod angen i'r unigolyn a benodir ddeall, neu fod yn barod i ddysgu mwy am, ddiwylliannau gwaith cymdeithasol a'r pwysau a'r cyfyngiadau y mae gweithwyr cymdeithasol a gofawyr yn gweithredu o fewn iddynt.

Dyma'r cyd-destun statudol ac amlinelliad byr o nodau'r ddeddfwriaeth, ond fel y nodwyd eisoes, ac fel gyda Chydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyngofal yng Nghymru, mae amrywiaeth mawr yn y ffordd y mae rôl VSH wedi esblygu a datblygu ar draws Lloegr a sut mae Ysgolion Rhithwir yn gweithredu erbyn hyn. Mae'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn yn debyg i'r profiad yng Nghymru, gan gynnwys y cyd-destun daearyddol, nifer y plant sy'n derbyn gofal ac, yn hollbwysig, y flaenoriaeth a roddir i hyn gan bob Cyngor, a adlewyrchir yn yr adnoddau a ddyrennir i'r Ysgol Rithwir, gyda thipyn o amrywiaeth yn Lloegr, fel yng Nghymru.

Er y gall fod manteision cynhenid, felly, mewn mabwysiadu model Ysgol Rithwir, mae'n amlwg, ar gyfer gwelliant sylweddol mewn deilliannau, bod angen i hyn fod yn gysylltiedig ag ymrwymiad gan ALLau i ddyrannu lefel uwch o adnoddau i'r Ysgolion Rhithwir.

Fodd bynnag, hyd yn oed yng nghyd-destun y gwahaniaeth hwn yn lefel y cyllid, mae creu sefyllfa VSH wedi arwain at fwy o gysondeb ac ymarfer cyffredin ac mae wedi codi proffil gwella deilliannau addysgol a chanlyniadau eraill ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. O ystyried uchelgais yr adolygiad hwn i wella deilliannau, bydd y ffocws yma ar rai o'r arferion gorau a'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gyfuno model VS gyda chyllid priodol.

Efallai mai'r hyn sydd fwyaf amlwg yw effaith statws y VSH, a'r pŵer i ddylanwadu sydd ymhlyg wrth hyn. Er bod Aelodau eu timau'n canolbwyntio ar yr agweddau gweithredol ar gefnogi eu LAC, gall y VSH weithredu'n strategol, nodwedd a nodwyd mewn ymchwil ac adolygiadau cymheiriaid diweddar. Nid oedd y farn hon yn gyfyngedig i'r gweithwyr proffesiynol hynny o gefndir addysgol. Mae gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr yn gyffredinol yn croesawu'r swydd uwch fel gwelliant sylweddol i'r gwaith a'r ffordd mae'n helpu i'w harwain drwy fyd modern cymhleth addysg, cynllunio addysg plant ynghyd â'u profiad o ofal, a, lle bo angen, yn eu helpu i gysylltu â'r ysgolion neu eu herio.

Er enghraifft, o ran derbyniadau, mae'r VSH yn gallu rhoi pwysau ar Benaethiaid yr ysgolion prif ffrwd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol a bod lleoedd priodol yn cael eu sicrhau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, os oes angen mynd â nhw i'r llys. Fel yng Nghymru, nid yw sicrhau'r lle ysgol gorau bob amser yn hawdd, ond mae'n amlwg bod cael yr awdurdod sy'n mynd gyda bod yn Bennaeth yn ychwanegu'n sylweddol at eu gallu i gyflawni hyn, yn enwedig pan fo'r VSH yn aelod o'r panel lleoli. Lle nad yw'r VSH yn hapus gyda'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ynghylch materion mwy penodol, fel cael eu rhoi mewn ysgol sydd mewn categori OFSTED neu newid ysgol yn ystod cyfnod allweddol 4, gallant herio ac maent yn herio ysgolion ac unwaith eto, os oes angen, gallant ddefnyddio eu pŵer statudol i ymyrryd.

Yr hyn sydd hefyd yn drawiadol iawn yw cryfder y tîm ac amrywiaeth y staff a geir yn yr Ysgolion Rhithwir cryfaf. Er enghraifft, ym Mwrdeistrefi Lewisham a Hackney a Gogledd Swydd Efrog wledig, gyda thua 500, 750 a 420 o blant sy'n derbyn gofal ar eu cofrestri, mae gan bennaethiaid 10-12 o weithwyr proffesiynol yn eu timau - timau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr VSH - yn cynnwys Dirprwy a Phenaeithiaid Cynorthwyol, Addysgegyddion Cymdeithasol, Seicolegwyr Addysg, Rheolwyr Data, Therapyddion Teulu, Mentoriaid, Cynghorwyr ar gyfer Pontio yn 16 a 18 oed, Therapyddion Galwedigaethol ac, yn bwysig, Staff Gweinyddol. (Nid yw pob un o'r rhain yn llawn amser ac nid yw pob un ohonynt i'w gweld ym mhob un o'r 3 ALI.) Ni fyddai nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y rhan fwyaf o ALLau yng Nghymru yn 'cynhyrchu' cyllid ar gyfer staffio ar y raddfa hon - er mae'n bosibl y gallai'r 4 neu'r 5 mwyaf - ond gallai ALLau gyfuno adnoddau.

Waeth beth fo lefel y cyllid, yn y rhan fwyaf o Ysgolion Rhithwir, mae'r VSH yn rheoli'r staffio a'r gyllideb gan eu galluogi i gyfeirio adnoddau i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf. Fel swydd statudol yn Lloegr mae cyflog y Pennaeth Rhithwir yn cael ei dalu gan y Cyngor ond mae swyddi ac adnoddau eraill yn cael eu hariannu mewn amrywiaeth o ffyrdd - o Gyllid Anghenion Uchel, yn uniongyrchol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a thrwy'r Premiwm Disgyblion (LAC).

Mae cyllid y Premiwm Disgyblion (LAC) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn mynd i'r Ysgol Rithwir, sef arfer sy'n debyg i gyllid LAC y Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru sy'n mynd i Gonsortia Rhanbarthol, a gall ysgolion prif ffrwd wneud cais am y swm a ddyrennir i ddisgyblion yn eu hysgol. Fodd bynnag, mae'r VSH yn gorfod cymeradwyo hyn a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Mae hyn yn aml yn golygu gwrthod cynigion sy'n gwneud dim mwy na dyrannu cyfrifiadur i bob plentyn sy'n derbyn gofal neu'n defnyddio'r arian ar gyfer rhywbeth sy'n gyfrifoldeb i ALI megis cludiant.

Mae pwysau aruthrol ar draws Cymru a Lloegr o ran cymorth CAMHS ac felly mae'r VSHs hynny sydd â mynediad penodol at CAMHS a seicoleg addysg o fantais sylweddol. Er enghraifft, pan oedd plentyn wedi'i leoli'n ddiweddar y tu allan i'r ALI, roedd y VSH o'r 'ALI cartref' yn gallu darparu seicolegydd addysg i gynnal asesiad brys. Roedd hyn yn ardderchog i'r plentyn ond wrth gwrs mae'n dangos eto'r gwahaniaeth rhwng ALLau o ran lefel y cyllid.

Mae un o'r ystyriaethau allweddol, unwaith eto yng Nghymru a Lloegr, yn deillio o leoli plentyn sy'n derbyn gofal y tu allan i'r ALI. Mae hyn yn ychwanegu haen arall at yr anhawster o sicrhau bod anghenion addysgol pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael eu diwallu, ond o sgysiau â VSHs mae'n amlwg y gall cael Ysgol Rithwir ym mhob ALI a bod modd mynd yn syth at gyd-VSH gyflymu'r broses o ddod o hyd i leoliad addas mewn ysgol a'i gwneud yn llawer mwy tebygol y ceir canlyniad cadarnhaol.

Fel gyda Chydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyng Gofal, rhan bwysig o'r Ysgol Rithwir yw sicrhau bod y disgyblion yn mynychu'r ysgol. Mae llawer o Ysgolion Rhithwir Lloegr yn prynu gwasanaethau cwmnïau masnachol i ddarparu data ar bresenoldeb. Drwy hyn gallant gael data byw yn ddyddiol fel y gellir gweld unrhyw broblemau ar unwaith ac, os bydd angen, gellir cymryd camau gweithredu. Mae sefyllfaoedd yn amrywio'n fawr yn ôl y cyd-destun ond mewn ardaloedd trefol mae perygl i blant nad ydynt yn yr ysgol ac ar y strydoedd o bosibl gael eu targedu gan Linellau Cyffuriau. Fel yng Nghymru, mae angen Cynllun Addysg Personol ar bob plentyn sy'n derbyn gofal ac mae hyn yn rhan bwysig o rôl y sector Ysgolion Rhithwir, ond unwaith eto, mae defnyddio cwmnïau masnachol i leihau'r amser a dreulir ar weinyddu ac ysgrifennu adroddiadau wedi dod yn gyffredin.

Yn yr un modd, gyda gwaharddiadau, hysbysir yr Ysgol Rithwir a gall ymyrryd. Yn Lloegr, ni dderbynnir yn gyffredinol y polisi o osgoi lle bynnag y bo modd gwahardd plant sy'n derbyn gofal o'r ysgol, ac mae hyn yn cael ei gymhlethu gan fodolaeth Academiâu ac Ysgolion Rhydd. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, mae gan y plentyn sy'n derbyn gofal eiriolwr grymus yn y VSH.

Yn ogystal â'r agweddau gweithredol a strategol hyn mae tri phwynt pwysig arall y mae'n werth eu nodi. Fel gydag ysgolion prif ffrwd sydd â Chyrff Llywodraethu, mae gan lawer o Ysgolion Rhithwir Bwyllgor Rheoli. Mae hyn yn darparu haen arall o graffu, atebolrwydd a chymorth ar gyfer y VSH a'r VS.

Yn ail, gan ei fod yn Bennaeth, mae'r VSH hefyd yn aelod o holl grwpiau penaethiaid ALI a gall fynychu pob cyfarfod i gynrychioli LAC, i sicrhau bod pob ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac i sicrhau eu bod yn atebol.

Ac yn drydydd, mae gan VSHs Gymdeithas Genedlaethol o Benaethiaid Rhithwir, a grybwyllwyd eisoes, sydd nid yn unig yn fforwm ar gyfer rhannu ymarfer a chychwyn ymchwil ond hefyd yn gorff sy'n gallu cynghori a lobïo Llywodraeth.

Ar hyn o bryd mae System Addysg Cymru yn dechrau ar raglen uchelgeisiol sy'n wahanol iawn i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr ac felly nid yw o reidrwydd yn ddadl gref neu briodol i ddadlau bod alinio Cymru â Lloegr yn syniad da. Fodd bynnag, ceir nifer o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, nid yn unig ar draws ffiniau ALLau ond hefyd ar draws ffiniau cenedlaethol yn enwedig yn Lloegr ond hefyd o dro i dro gyda'r Alban. Yn sicr, byddai'n ymddangos bod achos, er budd y plant hyn, dros gael systemau yn y tair gwlad sy'n cyd-fynd.

Ymarfer cyfredol yn yr Alban

Yn yr Alban nid yw Ysgolion Rhithwir yn statudol ond mae peilot wedi bod yn rhedeg yn ninas Aberdeen ac mae sawl ALI arall yn ystyried y posibilrwydd o'u cyflwyno. Rhaid i Gyfarwyddwyr Addysg yn yr Alban sicrhau bod eu ALI yn hybu cyflawniad addysgol y plant sy'n derbyn gofal ganddynt waeth ble y cânt eu lleoli. Gan ddyfynnu o becyn cymorth Pennaeth Ysgol Rithwir Aberdeen, sef dogfen leol nad yw'n ddogfen genedlaethol, yn wahanol i'r llawlyfr yn Lloegr a grybwyllir uchod - *'the core purpose of the VS Headteacher is to be relentless in driving up improvements in the educational progress and attainment/achievement of all children looked after by the Authority'*. Mae ganddynt hefyd rôl mewn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill i gefnogi cynnydd plant yn eu hysgolion ond sy'n derbyn gofal gan awdurdod arall.

Y rhesymeg y tu ôl i fabwysiadu'r model Ysgol Rithwir yn Aberdeen fel y nodir yn eu llawlyfr yw *'because children who are being looked after are educated across a large number of schools the VSH has a uniquely powerful role in tracking their progress as if they were in a single school, and as a headteacher can collaborate and plan jointly with headteachers and others across the system who share responsibility for the children'*.

Nodir y pum maes cyfrifoldeb allweddol isod ac, wrth gwrs, maent yn debyg iawn i'r rhai ar gyfer Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru a Phenaethiaid Ysgolion Rhithwir yn Lloegr.

- Gwneud yn siŵr bod yna system i dracio a monitro cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn drylwyr.
- Sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun cadarn ac effeithiol sy'n cefnogi mynediad at gymorth priodol ac amserol ac sy'n unol â'r Ddeddf Plant a Phobl Ifanc.
- Hyrwyddo anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal ar draws yr awdurdod a'r rheini sydd wedi'u lleoli y tu allan i awdurdod.
- Rheoli tîm o swyddogion cymorth addysg sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal.
- Darparu cymorth a chynghori i ysgolion ac i'r gwasanaeth ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Ymddengys fod y ddamcaniaeth wedi ei chefnogi gan ymarfer rhagorol yn Aberdeen, gyda Phennaeth yr Ysgol Rithwir yn dal swydd uwch yn yr awdurdod, gan eistedd wrth y rhyngwyneb rhwng ysgolion, adrannau addysg a gofal cymdeithasol ac mewn sefyllfa unigryw i fonitro cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal. Fel yn Lloegr, mae cydnabyddiaeth o'r pwysigrwydd a roddir i rôl yr awdurdod lleol i'w weld yn y statws a roddir i'r VSH.

Fel yn Lloegr mae'r VSH yn gallu gweithredu ar lefel strategol ac mae'n rheoli tîm sy'n cynnwys Swyddogion Cefnogi Addysg (ESO) sy'n gwneud llawer o'r gwaith wyneb yn wyneb gyda'r bobl ifanc, ysgolion, darpariaeth amgen a rhieni maeth. Mae gan ESOs gefndir addysgu, ac yn ddelfrydol mae ganddynt wybodaeth fanwl am anghenion dysgu ychwanegol a gofal bugeiliol. Mae profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc, sydd wedi profi trawma ac sydd â phroblemau ymlyniad neu sydd wedi gofyn am gymorth mewn perthynas ag ymddygiad gofidus, hefyd yn cael ei ystyried yn fuddiol gan y gallant gefnogi ysgolion â strategaethau a dulliau gweithredu a helpu athrawon a staff cymorth i ddeall pam mae'r plant yn ymddwyn yn y fath fodd. Maent hefyd yn darparu dysgu proffesiynol ac yn meddu ar hygrededd gydag athrawon. Mae swydd ESO yn swydd wedi'i ddyrchafu sy'n cyfateb i Arweinydd Canol mewn ysgol ac mae disgwyl i'r unigolyn fod â rôl arwain mewn swyddi blaenorol.

Eto, nid yw'n syndod bod data cywir a chyfredol am gynnydd, presenoldeb a lleoliadau'r plant yn angenrheidiol er mwyn gwella effaith y VSH, fel yr oedd y trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Rhoddir cryn bwyslais ar y gofyniad statudol i drosglwyddo gwybodaeth pan fo plentyn sy'n derbyn gofal yn newid lleoliad.

Pan fydd amgylchiadau'n mynnu bod yn rhaid i berson ifanc gael ei leoli ar fyr rybudd yn Aberdeen, rôl Pennaeth yr Ysgol Rithwir yw ymgymryd â rôl rhiant corfforaethol ar unwaith, ac yn sgil hynny, gweithio gydag ysgolion a gwasanaethau i roi darpariaeth briodol ar waith, hyd yn oed os yw'n ddarpariaeth tymor byr yn unig. Mae'r ymateb uniongyrchol hwn yn rhoi'r cyfle i'r holl bartneriaid gynllunio dull tymor hwy yn effeithiol gan wybod i sicrwydd bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu mewn lleoliad addysgol.

Ymarfer yn Ewrop

Nid oedd cyfle i ymgysylltu â gwledydd y tu hwnt i'r DU ond fe wnaeth y VSH yn Hackney dynnu sylw at un elfen o ymarfer sy'n gyffredin yn Ewrop, ond nad yw wedi cael ei mabwysiadu'n eang yma, sef Addysgeg Gymdeithasol. Mae'n chwarae rhan amlwg mewn llawer o wledydd yn Ewrop, ac mae'n ymwneud â'r ffordd y mae cymdeithas yn meddwl am eu plant, sut y maent yn gofalu amdanynt, sut y maent yn eu haddysgu a sut y maent yn eu magu. Mae'n ddull cyfannol sy'n seiliedig ar lais y bobl ifanc ac mae'n ymwneud â llesiant, hapusrwydd, grymuso a chydberthnasau. Mae'n ystyried addysg fel un na ellir ei gwahanu oddi wrth agweddau eraill ar les plentyn.

Ar y cyfandir mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cartrefi plant, er enghraifft, Denmarc a'r Almaen yn Addysgegyddion Cymdeithasol, sy'n broffesiwn i

raddedigion. Yn ogystal, mae Addysgeg Gymdeithasol yn chwarae rhan fawr yn yr hyfforddiant a ddarperir i lawer o bobl eraill sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal gan gynnwys rhieni maeth. Yn wahanol i'r ffordd y mae llawer o ymarfer a meddwl wedi datblygu yn y DU mewn ymateb i faterion yn ymwneud â chamdriniaeth ac amddiffyn plant, mae Addysgeg Gymdeithasol yn ei hanfod yn mynnu bod oedolion a gofawyr yn meithrin perthynas agos â'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r VSH yn Hackney yn cyflogi 4 o Addysgegyddion Cymdeithasol, sydd i gyd yn ddinasyddion yr UE.

Mae diddordeb wedi bod mewn Addysgeg Gymdeithasol yng Nghymru yn enwedig yn y Rhwydwaith Maethu, ond hyd yma prin fu'r ymgysylltu o du Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y brif ffrwd.

Argymhellion

Mae'r argymhellion a nodir isod yn ymdrin â'r pum prif faes.

1. Datblygu model Ysgolion Rhithwir i Gymru
2. Y lefel o adnoddau sydd ei hangen i alluogi dull integredig sy'n gwella deilliannau
3. Pwysigrwydd data o'r radd flaenaf
4. Y goblygiadau ar gyfer hyfforddiant
5. Yr angen i ehangu mesurau yr hyn y bernir yw deilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Fel y nodwyd eisoes, mae llawer o ymarfer rhagorol yng Nghymru, ond gyda gormod o strwythurau gwahanol, mae gormod o amrywiaeth yn lefel yr adnoddau a diffyg cysondeb cyffredinol yn y cymorth a ddarperir. Nid oes amheuaeth ychwaith fod y rhan fwyaf o'r argymhellion eisoes yn cael eu hymarfer yn rhywle yng Nghymru, er nad oes yr un ohonynt, mae'n debyg, ym mhob ALI. Fodd bynnag, un o brif amcanion yr adolygiad yw creu nid yn unig ddeilliannau gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ond hefyd system fwy unffurf ledled y wlad fel ein bod yn integreiddio'n well y cymorth i'n plant sy'n derbyn gofal ble bynnag y maent yn byw, lle bynnag y cânt eu haddysgu ac yn bwysicaf oll pryd bynnag y maent yn symud.

1. Datblygu model Ysgolion Rhithwir i Gymru

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru benodi Pennaeth Ysgol Rithwir a sefydlu Ysgolion Rhithwir, er mwyn cyflawni dyletswydd Awdurdodau Lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol y plant sy'n derbyn gofal o fewn yr awdurdod. Dylai Pennaeth yr Ysgol Rithwir weithio'n uniongyrchol gydag Uwch Swyddog yn yr ALI a bod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y strategaeth addysg a gofal cymdeithasol. Yr awdurdod lleol ddylai gyflogi Pennaeth

yr Ysgol Rithwir neu, os yw awdurdodau lleol yn cytuno i gydweithio neu rannu'r rôl, awdurdod lleol arall yng Nghymru. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ysgrifennu canllawiau statudol i elwa ar arferion gorau yn Lloegr a'r Alban a dysgu ohonynt gan gynnwys creu Pwyllgorau Rheoli, dirprwyo'r gyllideb a rhoi cyfrifoldeb rheoli llinell dros holl staff yr Ysgol Rithwir i Bennaeth yr Ysgol Rithwir.

Prif nod yr adolygiad oedd dod o hyd i ffyrdd o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal drwy weithredu dull integredig ledled Cymru. Wrth wneud hynny, dylai'r cyfrifoldeb dros rianta corfforaethol o ansawdd uchel gael blaenoriaeth dros faterion lleol eraill fel strwythur yr awdurdod lleol, cyllid gwahaniaethol a gwleidyddiaeth leol. Mae'r amrywiaeth presennol yn y ffordd y caiff ALLau eu trefnu wedi arwain at ormod o amrywiaeth yn y ddarpariaeth, defnydd aneffeithlon o adnoddau a chymorth annigonol yn y pen draw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn seiliedig ar y dystiolaeth o Loegr a'r Alban, byddai creu Ysgolion Rhithwir yn cynnig dull mwy cydlynol, penodol, cyson ac effeithiol.

- Mae'r strategaeth bresennol yng Nghymru wedi arwain at ddulliau a strwythurau lluosog, ac mewn rhai achosion, cymhleth. Byddai mabwysiadu model Ysgolion Rhithwir yn rhoi'r prif gyfrifoldeb yn glir mewn adrannau addysg ac yn arwain at fodel cenedlaethol unffurf.
- Wrth gwrs, byddai angen i Bennaeth yr Ysgol Rithwir ddeall a bod yn barod i ddysgu am ymarfer gwaith cymdeithasol a chofleidio targedau canlyniadau gofal cymdeithasol yn ogystal â rhai'n ymwneud ag addysg, gan sicrhau bod gwybodaeth am blant mewn gofal yn cael ei chofnodi ar yr un 'system.'
- Yn hollbwysig, byddai gwneud hyn yn swydd Pennaeth, yn swydd uwch na rhai Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, yn rhoi statws i'r rôl ar unwaith. Byddai'n rhoi neges gref iawn i ysgolion ac yn galluogi pob Pennaeth Ysgol Rithwir i herio a dwyn Penaeithiaid i gyfrif yn well a phawb sydd â chyfrifoldebau am gefnogi plant sy'n derbyn gofal, o ran materion fel derbyn, gwahardd, cynnydd a deilliannau addysgol eraill. Yn Lloegr, pan gyflwynwyd Ysgolion Rhithwir, lle'r oedd penaeithiaid yn cael eu penodi â lefelau is o brofiad, roeddent yn sylweddoli'n fuan eu bod dan anfantais.
- Mewn adroddiad diweddar dangosodd canlyniadau gwerthusiad o adolygiadau cymheiriaid fod grym a dylanwad Pennaeth yr Ysgol Rithwir yn dibynnu'n sylweddol ar y graddau y cawsant eu derbyn fel cymheiriaid gan benaeithiaid ysgol eraill. Ymddengys mai'r rheini a benodir o gefndir addysgol cryf sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn.
- Byddai Pennaeth yr Ysgol Rithwir, gyda'r un statws â phenaeithiaid eraill, yn mynychu eu cyfarfodydd a'u cynadleddau ac yn aelod o'r panel rianta corfforaethol. Gellid cryfhau'r ymarfer lle'r oedd Pennaeth yr Ysgol Rithwir yn cofleidio targedau deilliannau gofal cymdeithasol yn ogystal ag addysg a phan fydd gwybodaeth am blant mewn gofal yn cael ei chofnodi ar yr un 'system.'
- Byddai creu Pwyllgorau Rheoli Ysgolion Rhithwir ar y cyd yn ychwanegu lefel leol bwysig arall o graffu, cefnogi ac atebolrwydd. Byddai aelodaeth amrywiol, gan

gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rhieni maeth ac aelodau sy'n benaethiaid sy'n cynrychioli ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn gaffaeliad mawr.

- Pennaeth yr Ysgol Rithwir gyda chefnogaeth y Pwyllgor Rheoli a fyddai'n rheoli cyllideb yr Ysgol Rithwir ac a allai ymateb yn gyflym a chomisiynu'r adnodd a allai ddiwallu'r angen a nodwyd orau.
- Byddai cael cyfrifoldeb rheolwr llinell dros dîm staff Pennaeth yr Ysgol Rithwir yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau ac yn galluogi'r sector gwirfoddol i ymateb yn gyflym ac yn briodol i'r angen.
- Gyda'i gilydd gallai Penaeithiaid yr Ysgolion Rhithwir ddod yn grŵp pwerus yn genedlaethol wrth ddatblygu'r cymorth gorau posibl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel y mae NAVSH yn Lloegr
- Wrth sicrhau dull gweithredu mwy integredig ledled Cymru, byddai cael yr un model ym mhob ALI yn hwyluso'r cymorth i LAC yn enwedig y rheini a leolir mewn ALI arall neu yn Lloegr neu'r Alban.

Mae gwerthusiad annibynnol ICF Consulting o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Grant Dysgu Disgyblion-LAC) yn awgrymu bod "*recruiting a Virtual School Head (VSH) or having a similarly designated member of staff at LA level who is a senior, experienced educational professional and whose sole remit is to support LAC through strategic planning, clear monitoring and evaluation and networking with wider stakeholders*" yn cefnogi effeithiolrwydd y gwaith o reoli a darparu cyllid grant.

Wrth sefydlu Ysgolion Rhithwir, mae llawer i'w ddysgu gan Loegr ac yn gynyddol gan yr Alban ac mae cyfle i ddatblygu model sy'n adeiladu ar eu profiad ond sydd wedi'i seilio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru.

2. Y lefel o adnoddau sydd ei hangen i alluogi dull integredig sy'n gwella deilliannau

Argymhelliad

Fel rhan o'r gwaith o sefydlu Ysgolion Rhithwir, dylid cynnal adolygiad sy'n ceisio sicrhau bod y gwariant presennol yn cael yr effaith fwyaf bosibl a nodi lle mae angen adnoddau newydd. Bydd gwahaniaethau mewn lefelau cyllid bob amser ond wrth greu swydd Rhith-bennaeth, mae'n amlwg y gallai eu cyfrifoldebau statudol arwain at gymorth tecach i blant sy'n derbyn gofal, waeth ble y cânt eu lleoli. Dylai cyllid LAC y Grant Datblygu Disgyblion fynd i gyllideb yr Ysgol Rithwir.

Yng Nghymru a Lloegr mae'r ymarfer gorau yn dangos strategaeth sy'n edrych yn gyfannol ar gyllido cymorth ar draws adrannau ar gyfer LAC ond hefyd ddull sy'n barod i ddod o hyd i'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu cyfrifoldeb yr awdurdod lleol am LAC. Byddai cyfuno adnoddau presennol yng nghyllideb yr Ysgol Rithwir yn fwy effeithlon ond byddai'r enillion gwirioneddol yn dod o greu timau pwrpasol i weithio i Bennaeth yr Ysgol Rithwir. Gallai hyn fod yn dîm sy'n gwasanaethu un neu fwy o ALIau.

Roedd y penderfyniad i ddyrannu cyllid LAC i'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn hytrach nag ysgolion unigol yn ddefnydd mwy effeithlon ac effeithiol o'r cyllid. Er yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar arian grant, byddai defnyddio hyn i ddarparu rhan o gyllideb Pennaeth Ysgol Rithwir yn hwyluso cymorth gwell a mwy strategol ar hyn o bryd. Yn hytrach na cheisio pennu lefelau ariannu, dylai canllawiau statudol bennu gofynion sylfaenol y cymorth y mae'n rhaid ei ddarparu. Gallai hyn gynnwys mynediad penodol at Seicoleg Addysg a CAMHS.

Un maes ymchwil arall sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn yw cost lleoliadau preswyl. Adroddodd sawl ALI gost gofal preswyl - yn aml cymaint â £250,000 y disgybl y flwyddyn - fel mater o bwys. Mae o leiaf un awdurdod lleol, sef Ynys Môn, fel y nodwyd eisoes, yn ceisio dod â'i LAC yn ôl i'r awdurdod lleol cartref. Yn anffodus, mae'n debyg bod natur y ffordd y caiff cyllid ei ddsbarthu yn golygu na ellid ailgyfeirio'r gwariant hwn, os caiff ei arbed, i gyllideb yr Ysgol Rithwir.

3. Pwysigrwydd Data o'r Radd Flaenaf

Argymhelliad

Dylai Ysgolion Rhithwir gael mynediad at ddata byw pob plentyn sy'n derbyn gofal yn eu ALI yn union fel y byddai unrhyw bennaeth arall. Yn yr un modd, yn union fel y byddai data disgybl ysgol brif ffrwd sy'n symud ysgolion yn cael ei drosglwyddo i'w hysgol newydd, dylai Pennaeth yr Ysgol Rithwir yn yr ALI 'newydd' gael y data hwnnw. Dylid rhoi ystyriaeth unwaith eto i 'dynnu sylw' at LAC ar CYBLD.

Mae'r holl staff mewn unrhyw ffordd sy'n gysylltiedig â LAC yn pwysleisio pwysigrwydd cael mynediad at ddata cyfredol am y rhesymau a amlygwyd uchod yn yr adborth gan Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Yn amlwg mae materion technegol i'w hystyried, ond os yw cymorth a deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i gael eu gwella, rhaid rhoi blaenoriaeth i hyn ac mae angen dod o hyd i atebion. Wrth wneud hynny gallai fod yn gyfle lle y gallai dysgu o brofiad Lloegr alluogi datblygu model cryfach yng Nghymru. Er fy mod yn deall y gofynion GDPR, byddai'n dda ystyried eto'r posibilrwydd o nodi LAC yn CYBLD.

Yn ogystal, gallai model cenedlaethol arwain y gwaith o ddatblygu TG a fyddai'n hwyluso ymarfer da o ran Cynlluniau Addysg Personol, a fyddai'n olrhain presenoldeb byw, yn galluogi mynediad at ddata cynnydd a chyrrhaeddiad ac yn arwain y ffordd o ran mesur llesiant emosiynol.

4. Y goblygiadau ar gyfer Hyfforddiant

Argymhelliad

Dylai pob aelod o staff sy'n ymwneud â gweithio gydag ALLau mewn ysgolion gael hyfforddiant ar ymarfer sy'n ymwybodol o Drawma ac Ymlyniad. Dylai hyn fod yn

elfen orfodol o fewn Addysg Gychwynnol Athrawon. Byddai hyn o fudd i LAC ond hefyd i bob disgybl yn enwedig plant eraill sy'n agored i niwed.

Gwneir achos cryf iawn gan Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyng Gofal a chan yr ysgolion niferus yng Nghymru sydd wedi cael eu hyfforddi, am yr effaith y gall dealltwriaeth o drawma ac ymlyniad ei chael. Pa gymorth bynnag y gellir ei ddarparu drwy Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyng Gofal neu Ysgolion Rhithwir, mae'r holl ddisgyblion yn treulio'r rhan helaethaf o'u hamser yn yr ysgol mewn ystafelloedd dosbarth 'rheolaidd' gydag athrawon 'rheolaidd'. Bydd unrhyw beth y gellir ei wneud i roi gwell dealltwriaeth i'r athrawon hyn o sut i gefnogi llesiant plant yn cael effaith sylweddol. Byddai hyn hefyd yn cefnogi nodau'r cwricwlwm newydd gyda'i ffocws ar les o ran deall ymddygiad a gwybod sut i ymateb.

5. Yr angen i ehangu mesurau'r hyn y bernir yw deilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Argymhelliad

Heb ostwng dyheadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, dylai Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru ehangu'r metrigau a ddefnyddir i fesur deilliannau ar gyfer pob disgybl ond yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn enwedig yn 16 a 18 oed.

Mae'n anodd iawn gwerthuso llwyddiant gwahanol ddulliau gan fod y mesurau a ddefnyddir i lunio barn am gyrhaeddiad disgyblion yn amhriodol mewn llawer o achosion ar LAC. Er eu bod yn cydnabod bod cymwysterau'n bwysig ac na fyddent am i neb gollir cyfle i ddilyn eu hastudiaethau mewn addysg uwch, mae'r adborth gan bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn golygu bod obsesiwn ysgolion â TGAU ar y gorau yn blino ac ar ei waethaf yn niweidiol. Maent yn deall bod ysgolion am iddynt gyflawni. Gallant hefyd fynegi'n glir nad yw hyn yn gwbl anhunanol gan eu bod yn gwybod bod ysgolion yn cael eu barnu ar sail eu perfformiad cyffredinol a bod disgyblion â chanlyniadau isel yn gallu cael effaith negyddol ar yr ysgol. Fodd bynnag, maent hefyd yn mynegi'n glir iawn bod pethau pwysig, a straen yn aml iawn, yn digwydd yn eu bywydau drwy gydol eu haddysg ac yn enwedig yn 16 oed.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei threfn cymwysterau ac asesu a hefyd sut maent yn barnu ysgolion. Pe gellid datblygu ffyrdd o fesur deilliannau llwyddiannus ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gallai hynny fod o fudd i bob person ifanc. Nid yw parhau i ganolbwyntio ar gymwysterau TGAU ac ar fwllch cyrhaeddiad a allai gulhau ond na fydd byth yn cau'n llwyr yn fuddiol.

Fodd bynnag, oherwydd y gall gymryd peth amser i ddatblygu a gweithredu unrhyw newid, dylid gwneud defnydd gofalus iawn o'r system bresennol i ddod i gasgliadau am LAC fel 'categori'. Nid yw agregu plant sy'n derbyn gofal yn ganrannau lleol neu genedlaethol yn ystyrlon.

Mae gan tua 60% o blant sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol, llawer ohonynt yn eithaf cymhleth; yn y rhan fwyaf o ysgolion ac ALLau mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn fach a chanrannau yn ystadegol annibynadwy; ac mae llawer o

blant sy'n derbyn gofal yn gorfod ymdopi â newid ysgolion yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn gostwng dyheadau, yn hytrach mae'n gydnabyddiaeth mai cynnydd unigol ac ystod o ddeilliannau sy'n bwysig. Nid yw'r data cyrhaeddiad ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal yn Lloegr nad oes ganddynt ADY ac nad ydynt wedi symud yn ystod CA4 yn wahanol iawn i'r cyfartaleddau cenedlaethol - er bod ystyriaeth arall yn codi o hyn, sef beirniadu cadernid data ar rai achlysuron ond wedyn ei ddefnyddio pan fydd hynny'n gyfleus.

Nid lle'r adolygiad hwn yw manylu ynghylch dewisiadau eraill ond mae'r awgrymiadau a wnaed gan y rhai sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn cynnwys; canolbwyntio'n fwy ar y cynnydd a wneir mewn pynciau yn hytrach nag ar y canlyniadau terfynol; llwybrau camu ymlaen yn 16 a 18 oed gan gynnwys nifer y rhai sy'n NEET; mesur llesiant ac yn arbennig gwydnwch; a dilyniant sylweddol yn 21 a 25 oed.

Argymhellion Ychwanegol

Wrth gynnal yr ymchwil, codwyd amrywiaeth o faterion eraill ac er bod rhai o'r rhain y tu hwnt i friff penodol yr adolygiad maent wedi'u cynnwys gan fod ganddynt y potensial, os cânt eu mabwysiadu neu o leiaf eu hymchwilio, i wneud cyfraniadau i'r deilliannau a gyflawnir gan LAC.

Y Gymraeg

Wrth wneud lleoliadau, rhaid ystyried plant sy'n derbyn gofal y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Ceir enghreifftiau o blant ifanc iawn y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt ac y mae eu gwybodaeth o Saesneg yn gyfyngedig iawn, yn cael eu rhoi mewn teuluoedd, ysgolion a lleoliadau lle siaredir Saesneg yn unig.

Goruchwyliaeth

Mae gan y rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol hawl i Oruchwyliaeth, sy'n canolbwyntio ar eu llesiant, ond ar hyn o bryd nid yw hyn yn wir am Gydgyssylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Os penderfynir creu Ysgolion Rhithwir, dylai unrhyw aelod o dîm yr Ysgol Rithwir sy'n gweithio wyneb yn wyneb â phobl ifanc gael yr un hawl i Oruchwyliaeth.

Dysgwyr Mabwysiedig

Wrth wneud unrhyw newidiadau i reoliadau neu ganllawiau statudol, dylai plant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac sydd bellach wedi'u mabwysiadu gael yr un lefel o hawl a mynediad gan Lywodraeth Cymru i unrhyw gymorth addysgol penodol a ddyrennir i blant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n agored i niwed. Yn ddiddorol, nid oedd y bobl ifanc a gyfwelwyd at ddiben yr adolygiad yn hoffi'r term LAC na CLA (plant sy'n derbyn gofal) ac roedd yn well ganddynt y term "Â Phrofiad o Ofal". Roeddent yn teimlo y dylai unrhyw berson ifanc sydd wedi cael profiad o ofal am ba hyd bynnag, fod â hawl i gael cymorth. Byddai hyn felly yn cynnwys plant wedi'u mabwysiadu sydd, yn rhinwedd cael eu mabwysiadu, wedi treulio amser mewn gofal

a llawer ohonynt yn wynebu problemau tebyg ac y mae ymlyniad a thrawma yr un mor bwysig iddynt. Mae hyn yn adleisio barn plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu, sy'n aml yn teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu cydnabod a'u cefnogi yn y ddarpariaeth addysgol.

Ymyrraeth Gynnar

Fel ym mhob agwedd ar addysg, y farn a fynegir gan y Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac eraill yw y dylid gwneud pob ymdrech i ymyrryd mor gynnar â phosibl, boed hynny ar gyfer atgyfeiriad CAMHS, neu unrhyw gymorth arall, ac mae angen symleiddio systemau er mwyn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.

Addysgeg Gymdeithasol

Mae angen ymchwil i'r defnydd posibl o Addysgeg Gymdeithasol, yn y lle cyntaf drwy raglenni hyfforddiant i staff perthnasol, er yn ddiweddarach drwy ymchwilio i ddatblygiad Addysgegyddion Cymdeithasol fel proffesiwn. Fel y disgrifir yn yr adran ar Ymarfer Cyfredol yn Lloegr, mae mwy a mwy o ddiddordeb yn ei addasrwydd fel dull o weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal. Ei olwg gyfannol ar blant, ei gred nad oes modd gwahanu addysg oddi wrth agweddau eraill ar fywyd plentyn, ei ffocws ar lesiant, ei ymarfer llwyddiannus ar draws rhan helaeth o Ewrop, ac yn fwy na dim ei arwyddocâd i Gwricwlwm newydd Cymru.

Newidiadau Posibl o ran yr Eirfa a Ddefnyddir

Mae dau newid posibl yn yr iaith sy'n cael ei defnyddio. Yn gyntaf, nid yw'r bobl ifanc eu hunain yn hoffi'r term LAC. Byddent yn ffafrio'r ymadrodd mwy cynhwysol Â Phrofiad o Ofal. Ac yn ail, o ystyried y camsyniadau sy'n codi o ddefnyddio 'rhith' efallai y byddai'n well mynd am ddewis eithaf hirfaith teitl cyfunol ' Pennaeth yr Ysgol Rithwir a Phennaeth Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal' (neu Bennaeth Addysg ar gyfer Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal) a defnyddio pa un bynnag sydd fwyaf addas i'r amgylchiad neu'r gynulleidfa dan sylw.

Syr Alasdair Macdonald

Mai 2020

Atodiad A

Canllawiau i Gydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal.

Fel swyddog dynodedig yr awdurdod lleol, disgwylir i'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, o leiaf gyflawni'r rolau gofynnol canlynol:

- gweithio tuag at amcanion Llywodraeth Cymru ar addysg plant sy'n derbyn gofal
- hyrwyddo addysg yr holl blant sy'n derbyn gofal y mae'r awdurdod lleol yn rhiant corfforaethol iddynt, waeth a ydynt wedi eu lleoli o fewn yr awdurdod neu'r tu allan
- cysylltu â'u cymheiriaid ar draws siroedd i ddiwallu anghenion y plentyn sy'n derbyn gofal yn effeithiol pan fydd newidiadau mewn lleoliadau yn digwydd ar draws siroedd
- monitro data ar bresenoldeb, gwaharddiadau, cynnydd, lles a chyflawniad; coladu a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad ar sail unigol a chyfunol. Defnyddio cyfrifo data 'gwerth ychwanegol' a chyfartaleddau treigl 3 blynedd
- sefydlu a chynnal rhestr - drwy'r broses o dderbyn plant sy'n derbyn gofal a leolir yn yr awdurdod gan awdurdodau lleol eraill
- cysylltu â pherson arweiniol perthnasol yr awdurdod lleol sy'n rhiant corfforaethol h.y. gweithiwr cymdeithasol, rhith-bennaeth (o awdurdodau lleol Lloegr) neu Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ar ddarpariaeth addysgol a threfniant pontio fel y bo'n briodol
- ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol, sicrhau bod ysgolion yn gwybod pa blant sydd mewn gofal
- datblygu a hyrwyddo dull o gynnwys plant sy'n derbyn gofal a chael eu barn ar ddarpariaeth addysgol. Dylid ystyried anghenion, gofynion a barn unigol plant sy'n derbyn gofal wrth ddarparu lleoedd ar eu cyfer ar ymyriadau a rhaglenni
- gweithredu fel cyfrwng rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg ar anghenion addysgol arbennig (AAA), trefniadau derbyn, polisi ac ati.
- cysylltu â Gyrfa Cymru, Gwasanaethau Ieuencid, y Tîm Gadael Gofal a rheolwyr perthnasol eraill i sicrhau cymorth priodol ac amserol a mynediad at hawliau cyffredinol
- rhoi cymorth a her i awdurdodau lleol mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau

- gweithio gydag ysgolion, helpu i leihau effaith amgylchiadau cartref aflonyddgar ar addysg y plentyn sy'n derbyn gofal drwy drefnu sesiynau 'dal i fyny', cymorth un-i-un neu gymorth arall wedi'i dargedu
- lledaenu ymarfer da gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig, gofalmwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, llywodraethwyr ysgol a'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion
- sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol / Cynlluniau Datblygu Unigol o safon uchel 10 ar waith ar gyfer pob plentyn a'u bod yn rhoi arweiniad ar eu gweithredu
- cyflwyno cynigion cyllideb cadarn sy'n golygu bod modd prynu a dyrannu adnoddau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel y bo'n briodol – yn achos y Grant Datblygu Disgyblion (LAC) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae gweithio'n agos gyda chonsortia ac ysgolion unigol yn hanfodol
- sefydlu a chadw rhestr o bersonau dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mhob ysgol yn eu hawdurdod ac ar gyfer ysgolion a fynychir gan blant a leolir y tu allan i'r awdurdod
- mynychu adolygiadau plant sy'n derbyn gofal fel y bo'n briodol
- cyfrannu at strategaethau a chynlluniau gweithredol i hyrwyddo ymgysylltu, presenoldeb a chyflawniad plant sy'n derbyn gofal a grwpiau sy'n agored i niwed
- helpu i gyflawni strategaeth a pholisi'r awdurdod lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn rhanbarthau'r consortia
- adroddiad i'r panel rhianta corfforaethol/aelodau etholedig/yr uwch dîm rheoli ar ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn erbyn strategaeth yr awdurdod lleol
- gweithio'n agos gyda'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (EPC) i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal ac sydd mewn perygl o ymddieithrio yn cael eu cefnogi a bod pontio i leoliad ôl-16 priodol wedi'i gynllunio ar eu cyfer.